



Gweithio gyda'n gilydd

Llais y Plant




Gweithio gyda'n gilydd

Presenoldeb yr ysgol am y tymor – 95.95

Hyn yn dda gan mai targed yr ysgol yw 95%

Newyddlen Ysgol Nebo - Tymor yr Hydref 2017



Dyma aelodau Cyngor Ysgol Nebo am y flwyddyn 2017 - 2018: Hedydd (cadeirydd), Cameron (Is-gadeirydd), Leon (ysgrifennydd), Cian (trysorydd), a Cadi, Gwydion a Lili fel aelodau pwyllgor. Caiff y cyngor gyfle i wneud penderfyniadau ynglyn â rhai pethau sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae gan y cyngor focs yn y cyntedd lle y caiff unrhyw un o ddisgyblion yr ysgol roi syniadau ynddo.

Mae Cyngor yr Ysgol wedi cefnogi elusennau yn ystod y tymor. Casglwyd £182 tuag at elusen MacMillan yn ein bore coffi ar Fedi 29ain. Hefyd daeth pawb i'r ysgol yn eu pyjamas ar ddiwrnod Plant Mewn Angen gan dalu £1 tuag at yr achos. Llwyddwyd i gasglu £49 Diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu.

Hoffai'r Cyngor ysgol ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i godi arian tuag at yr achosion



Daeth Ani o'r Urdd atom yn ystod ail hanner tymor yr Hydref i gynnal gwersi ymarfer corff. Cofiwch bod nifer o weithgareddau'r Urdd ar gael yn eich canolfannau hamdden lleol.

Braf yw gweld cynifer o blant yr ysgol y flwyddyn hon hefyd wedi ymaelodi gyda'r Urdd. Daeth Iwan atom i un o'r sesiynnau Urdd ar ol yr ysgol i hybu gweithgareddau'r Urdd ymhlith y plant.

Cafwyd tymor eithriaadol o brysur yn Ysgol Nebo yn ystod tymor yr Hydref y flwyddyn hon. Ddiwedd mis Hydref cawsom arolwg a bu'r holl staff a'r plant yn brysur iawn yn dangos pa mor dda yr ydym ni yn Ysgol Nebo yn gweithio. Bydd yr adroddiad yn cael ei chyhoeddi ar wefan Estyn mis Rhagfyr 27ain.



Aethom ar daith i Pant Du, Penygroes Hydref 16eg. Cawsom groeso mawr yno gan Richard ac Iola. Ein thema y tymor hwn oedd Breuddwydion ac felly aethom yno i glywed beth oedd breuddwyd Richard a Iola cyn cychwyn y busnes a thrafod sut yr oeddynt wedi gwireddu'r breuddwyd hwnnw. Yr hanes mwyaf diddorol i ni oedd sut aeth Richard ati i ddyfalbarhau i chwilio am ddŵr ar ol tyllu lawr i ddyfnderoedd y ddaear.



Daeth Ffion o Gyngor Gwynedd atom mis Tachwedd i atgoffa'r holl blant am bwysigrwydd arbed ynni yn yr ysgol a gartref. Rhaid dweud bod grwp gwyrdd yr ysgol yn gwneud gwaith arbennig yn ddyddiol i sicrhau ein bod yn ail-gylcgu, diffodd y goleuadau a'r gwres yn yr ysgol.

Daeth Mr Keith O'Brian i'r ysgol i siarad gyda'r plant am Hedd Wyn. Cawsant sgwrs hynod o ddi-fyr a'r plant i gyd yn gwranddo'n dda yn llawn diddordeb a brwdfrydedd.



Mae'r ysgol yn falch iawn o gyhoeddi bod ganddom tudalen we erbyn hyn sydd yn fyw. Felly os yr ydych eisiau darllen mwy am ysgol Nebo mae'r wefan yn llawn gwybodaeth. Ewch ar ysgolnebo.cymru am fwy o wybodaeth. Bydd y wefan yn cael ei chyfieithu i'r Saesneg yn fuan iawn ar ol y flwyddyn newydd.

Mae adeg y Nadolig yn adeg prysur iawn i ni yn yr ysgol. Dyma rai o'r gweithgareddau y buom yn eu gwneud y Nadolig hwn. Cawsom noson o ganu carolau a Ffair Nadolig y flwyddyn hon gyda chawl cynnes a mins pei blasus wedi'r holl ganu. Cafwyd perfformiad gwych gan y plant unwaith eto yn y cyngerdd Nadolig yng Nghapel Nasareth. Eto'r flwyddyn hon daeth yr henoed a neiniau a theidiau atom i fwynhau cinio Nadolig. Diolch yn fawr iawn i Anti Rhiannon am y wledd flasus. Aethom ni hefyd i Tyddyn Sachau i weld Sion Corn a chael cinio blasus yno. Hefyd aethom i'r Panto i weld y panto 'Culhwch ac Olwn—hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Mr Gerallt Llewelyn am brynu ticedi i'r holl ddisgyblion i weld y panto.



Dyma flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer y flwyddyn addysgol hon (2017 -2018):

1. Asesu ar gyfer Dysgu a Medylfryd Twf
2. Datblygu'r ardal tu allan
3. Assasu cynlluniau gwaith i fd yn arloesol
4. Parhau i ddatblygu TGCH a chodi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith newydd
5. Datbygu rol llywodraethwyr a chydlynwyr ymhellach

Da iawn Ryan, Tomos John a Maisie am lwyddo i gael presenoldeb llawn y tymor hwn—100%

NADOLIG LLAWEN iawn i chwi rieni a ffrindiau'r ysgol. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Bydd yr ysgol yn ailgychwyn dydd Llun, 8fed o Ionawr 2018.

Bydd trefniadau newydd ar gyfer y clwb brecwast o Ionawr ymlaen. Bydd y clwb gofal yn cychwyn am 8:10am lle bydd rhaid talu 80c y plentyn ac yna'r clwb brecwast yn agor am 8:35am i bawb arall. Bydd angen i chi logi lle i'ch plentyn ar lein a thalu o flaen llaw.